# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 17 Ebrill 2018

Amser: 08.30 - 08.52

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC, Llywydd (Cadeirydd)<br>Julie James AC<br>Paul Davies AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Gareth Bennett AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Rhuanedd Richards, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Matthew Richards, Pennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Dirprwy Lywydd.

## 2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

*Busnes yr wythnos hon*

O ran cynnig y Ceidwadwyr Cymreig ar gyfer dadl ddydd Mercher ar 'adroddiad ymchwiliad yr Ysgrifennydd Parhaol', darllenodd Arweinydd y Tŷ y datganiad a ganlyn:

*Rydym yn ceisio datrys mater cyfansoddiadol ynghylch cwmpas y pŵer a nodir yn adran 37 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae hwn yn darparu i'r Cynulliad y pŵer i orfodi tystion a thystiolaeth mewn perthynas â gwahanol faterion sy'n berthnasol i swyddogaethau Gweinidogion Cymru. O ystyried y safbwyntiau gwahanol a fabwysiadwyd gan Gomisiwn y Cynulliad a Llywodraeth Cymru, rhaid i'r Prif Weinidog weithredu i egluro'r gyfraith yn y maes hwn.*

*Mae Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu cynnig y Blaid Geidwadol am y rhesymau canlynol:*

*(a) Yn gyntaf, oherwydd bod y cynnig y tu hwnt i gwmpas pwerau'r Cynulliad o dan adran 37 ac, yn yr un modd, ultra vires fyddai unrhyw hysbysiad dilynol o dan adran 38. Mae hyn oherwydd nad yw adran 37 ond yn cwmpasu materion sy'n berthnasol i arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru, yn wahanol i swyddogaethau sy'n arferadwy gan y Prif Weinidog yn unig. Mae mwyafrif helaeth o'r swyddogaethau sy'n berthnasol i'r ffordd y mae Llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru yn gweithredu yn arferadwy*

*gan y Prif Weinidog a chan Weinidogion Cymru ar y cyd. Fodd bynnag, comisiynwyd yr adroddiad ar y datgelu a'i gynnal yn unol â swyddogaethau sy'n arferadwy gan y Prif Weinidog yn unig.*

*(b)* *Yn ail, mae'r cynnig yn codi amheuaeth ynghylch cynnal busnes y Cynulliad yn briodol. Mae'n arfer hir sefydlog gan bob Llywodraeth yn y DU beidio â datguddio adroddiadau ymchwiliad i achosion o ddatgelu, a hynny oherwydd y risg o wneud niwed i ymddygiad a chyfrinachedd ymchwiliadau yn y dyfodol. Fel yr eglurwyd yn llythyr yr Ysgrifennydd Parhaol dyddiedig 16 Mawrth 2018, mae fframwaith safonol ar gyfer ymchwiliadau i achosion o ddatgelu. Y perygl yw y byddai darparu manylion penodol am y fframwaith yn tanseilio effeithiolrwydd ymchwiliadau yn y dyfodol. Hefyd, mae risg glir na fyddai unigolion yn barod i gynnig gwybodaeth o'u gwirfodd na chydweithio gydag ymchwiliadau yn y dyfodol pe bai'n rhaid rhannu adroddiadau ar achosion o ddatgelu â'r Cynulliad.*

*(c)* *O ystyried yr ymchwiliadau cyfredol sy'n ymdrin â gwybodaeth sensitif a chyfrinachol, mae'n hanfodol ein bod yn ceisio sicrhau eglurder ynghylch cwmpas y ddarpariaeth hon ar hyn o bryd.*

*Ni fyddai'n briodol i'r cynnig uchod fynd rhagddo cyn i'r cwestiwn cyfreithiol a chyfansoddiadol pwysig hwn gael ei ddatrys.*

Dywedodd y Llywydd i'r llythyr ddod i'w llaw neithiwr, ei bod yn gofyn cyngor, ac y bydd yn ymateb maes o law. Efallai y bydd angen i'r Pwyllgor Busnes ailymgynnull rywbryd. Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes nad oedd modd iddi rannu'r llythyr â hwy am ei fod wedi'i nodi'n 'gyfrinachol'.

Dywedodd Paul Davies ei fod o'r farn bod cynnig y Ceidwadwyr ar "Adroddiad Ymchwiliad yr Ysgrifennydd Parhaol" mewn trefn, yn seiliedig ar y cyngor cyfreithiol a gafodd y grŵp a oedd, yn ei farn ef, yn gywir.

**Dydd Mawrth**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal ar ôl yr eitem olaf o fusnes.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.

### 3.2 Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 25 Ebrill 2018 –**

- Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol: Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) – penderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â gweithdrefnau is-ddeddfwriaeth (30 munud)
- ~~Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)~~ – *gohiriwyd tan 2 Mai*

**Dydd Mercher 2 Mai 2018 –**

- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Rhianon Passmore (Islwyn) (30 munud) – *gohiriwyd o 21 Mawrth*
- ~~Dadl Fer – Nick Ramsay (Mynwy)~~ – *gohiriwyd i 23 Mai*

**Dydd Mercher 9 Mai 2018 –**

- Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Prentisiaethau yng Nghymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

## 4 Cyfarfod Llawn

### 4.1 Cais i amserlennu Cynnig Heb Ddyddiad Trafod ar gyfer dadl

Cytunodd Rheolwyr Busnes i beidio ag amserlennu'r cynnig ar gyfer dadl, gan eu bod o'r farn iddo gael ei ddisodli gan gynnig y Ceidwadwyr Cymru a drefnwyd ar gyfer dydd Mercher. Nododd Arweinydd y Tŷ fod gan Lywodraeth Cymru yr un anawsterau â'r cynnig hwn â'r rhai a nodwyd ganddi ynghylch cynnig y Ceidwadwyr Cymreig ar gyfer dydd Mercher.

## 5 Deddfwriaeth

### 5.1 Llythyr gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol: Bil Deddfwriaeth (Cymru) Drafft

Nododd y Rheolwyr Busnes y llythyr.

### 5.2 Llythyr gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)

Cadarnhaodd y Rheolwyr Busnes eu penderfyniad, mewn egwyddor, ar 13 Mawrth i gyfeirio'r Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gyfer ei ystyried yng Nghyfnod 1, a chytunwyd mai'r dyddiad terfyn i'r Pwyllgor adrodd ar y Bil yng Nghyfnod 1 fyddai 6 Gorffennaf 2018, a'r dyddiad terfyn ar gyfer cwblhau trafodion y Pwyllgor yng Nghyfnod 2 fyddai 12 Hydref 2018.

## 6 Rheolau Sefydlog

### 6.1 Llythyrau gan y Pwyllgor Cyllid a chan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol: Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor o dan Adran 116C

Dywedodd Arweinydd y Tŷ nad oedd y Llywodraeth am gael Rheol Sefydlog annibynnol ac y dylid cynnwys y darpariaethau yn Rheol Sefydlog 27. Dywedodd Paul Davies ei fod yn credu y byddai Gorchymyn Sefydlog annibynnol yn briodol, fel yr argymhellwyd gan y pwyllgorau.

Cadarnhaodd yr Ysgrifenyddiaeth y byddant yn dod â phapur i gyfarfod yn y dyfodol yn cynnwys y ddwy opsiwn.

## 7 Pwyllgorau

### 7.1 Cais gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i ymestyn amser ei gyfarfod

Nododd y Rheolwyr Busnes y materion a godwyd a chytuno i ysgrifennu at y Pwyllgor yn ei hysbysu y byddai ceisiadau i gwrdd y tu hwnt i'w amser yn cael eu hystyried fesul achos.